# HAF 2023: CANLLAW I FYFYRWYR

## ARHOLIADAU SAFON UWCH A CHYFLEOEDD I AILSEFYLL

Deallwn fod amharu wedi bod ar ddysgu myfyrwyr yn y blynyddoedd diwethaf. Byddwn yn parhau i'ch cefnogi chi os ydych chi'n ailsefyll eich cymwysterau Safon Uwch yn 2023.

Dim ond unedau U2 y bydd angen i rai myfyrwyr eu sefyll i ennill Safon Uwch yn 2023.

### DIM OND UNEDAU U2 Y BYDD ANGEN I CHI EU SEFYLL I ENNILL SAFON UWCH YN 2023 OS:

- dyfarnwyd Safon Uwch i chi yn yr un fanyleb yn haf 2022 a'ch bod yn ailsefyll yn haf 2023 (gall hyn gynnwys gradd U), neu
- dyfarnwyd cymhwyster UG i chi yn yr un fanyleb yn haf 2020 (Gradd a Aseswyd gan y Ganolfan) neu haf 2021 (Gradd a Bennwyd gan y Ganolfan) a'ch bod wedi gohirio eich Safon Uwch tan haf 2023, neu
- dyfarnwyd cymhwyster Safon Uwch i chi yn yr un fanyleb yn haf 2020 (Gradd a Aseswyd gan y Ganolfan) neu haf 2021 (Gradd a Bennwyd gan y Ganolfan) a'ch bod am ailsefyll yn haf 2023, neu
- gwnaethoch chi gwblhau unedau UG yn 2019 neu cyn hynny ac felly mae gennych chi unedau wedi'u bancio i'w trosglwyddo. Mae hyn yn amodol ar y rheolau ailsefyll sydd wedi'u hamlinellu yn ein Canllaw i ailsefyll.

### BYDD ANGEN I CHI SEFYLL YR HOLL UNEDAU UG AC U2 YN 2023 (NEU FOD AG UNEDAU WEDI'U BANCIO I'W TROSGLWYDDO) OS:

- na wnaethoch chi gyfnewid eich unedau Safon Uwch yn haf 2022, neu
- na ddyfarnwyd cymhwyster UG i chi yn yr un fanyleb yn haf 2020 neu haf 2021 (gall hyn gynnwys gradd U), neu
- rydych chi'n sefyll unedau UG a Safon Uwch am y tro cyntaf (e.e. yn cwblhau Safon Uwch mewn un flwyddyn).

### OS GWNAETHOCH CHI SEFYLL UNEDAU UG YN 2022, BYDD Y CANLYNIADAU'N CYFRANNU AT EICH CANLYNIADAU SAFON UWCH YN 2023

Os ydych chi'n ailsefyll yn haf 2023, siaradwch â staff yn eich ysgol neu goleg i sicrhau eich bod yn ymdrin â'r unedau cywir.